Llywodraeth Cymru

# Gweithredu diwygiadau addysg

## Ymateb i adroddiad interim y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg (Gorffennaf 2024)

11/09/2024

Mae'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg yn monitro gweithrediad dau ddiwygiad addysg mawr wrth iddynt gael eu cyflwyno drwy'r Chweched Senedd.

Ym mis Gorffennaf 2024, yn dilyn y trydydd cyfnod monitro, penderfynodd y Pwyllgor gyhoeddi adroddiad interim ar y canfyddiadau hyd yma. Mae'r adroddiad yn cynnwys 8 o argymhellion.

Dyma ymateb Llywodraeth Cymru i'r argymhellion hynny.

# Cynnwys

**1. Cyflwyniad ..... 3**

**2. Ymateb i'r 8 argymhelliad ..... 4**

Argymhelliad 1 ..... 4

Argymhelliad 2 ..... 4

Argymhelliad 3 ..... 6

Argymhelliad 4 ..... 7

Argymhelliad 5 ..... 8

Argymhelliad 6 ..... 8

Argymhelliad 7 ..... 9

Argymhelliad 8 ..... 10

# 1. Cyflwyniad

Yng Nghymru, Addysg yw Cenhadaeth Ein Cenedl. Bydd gweithredu ein diwygiadau addysg yn cyflawni safonau a dyheadau uchel i bawb. Gyda'i gilydd, mae'r diwygiadau i'r Cwricwlwm i Gymru a'r system Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) yn gweithredu fel sbardun ar gyfer newid.

Mae cefnogaeth eang o hyd i'r cwricwlwm a'r system ADY newydd yng Nghymru, ac i'r ffordd newydd o weithio, ac mae ymrwymiad ar draws y sector i'w gael yn iawn. Mae hyn wedi'i osod yn erbyn cefndir o ddiwygiadau ehangach gan gynnwys dull ysgol gyfan o ymdrin ag iechyd meddwl a lles a'r dull newydd o werthuso, gwella ac atebolrwydd ysgolion, ac fe'i cefnogir gan y dull o ymdrin â Dysgu Proffesiynol cenedlaethol. Mae'r diwygiadau hyn yn digwydd hefyd yng nghyd-destun heriau parhaus, gan gynnwys gwaddol parhaus effaith y pandemig ar ddysgu a lles, heriau gyda phresenoldeb, a chynnydd mewn plant a phobl ifanc ag anghenion cymhleth, ynghyd â phwysau o ran y gweithlu a'r gyllideb.

Mae gwaith o weithredu Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) bellach yn y drydedd flwyddyn, ac erbyn mis Medi 2025 byddwn wedi cwblhau'r cam cychwynnol i symud dysgwyr o'r system AAA i'r system ADY. Mae'n ddyddiau cynnar o hyd wrth weithredu ein diwygiadau ADY sy'n newid systemig a diwylliannol mewn ymarfer i adnabod a chefnogi dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol.

# 2. Ymateb i'r 8 argymhelliad

## Argymhelliad 1

Mae'r Pwyllgor yn argymell:

Fel rhan o'i hadolygiad o'r Cod a'r Ddeddf ADY, dylai Llywodraeth Cymru adolygu eglurder a hygyrchedd y ddeddfwriaeth a'r canllawiau statudol. Dylai ffocws y gwaith hwnnw fod ar yr hyn a olygir, neu o leiaf a ddeellir yn gyffredin, fel 'darpariaeth gyffredinol' drwy archwilio i ba raddau y dylai addysgu arferol ar draws ysgolion prif ffrwd ddiwallu anghenion dysgu plant sydd ag anghenion ychwanegol isel i gymedrol, ac ar ba bwynt y dylai gwahaniaethu arferol fod yn rhan o'r Ddarpariaeth Ddysgu Ychwanegol.

Ymateb: Derbyn

Yn sesiwn graffu y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg ar 8 Mai, mynegodd Ysgrifennydd y Cabinet ei hymrwymiad i adolygu'r fframwaith deddfwriaethol ADY i sicrhau ei fod yn glir ac yn ddealladwy. Mae hyn yn cynnwys ystyried eglurder a hygyrchedd y Ddeddf a chanllawiau statudol i nodi'r camau nesaf i sicrhau gweithredu mwy cyson ledled Cymru.

Bydd y gwaith cwmpasu yn cael ei gwblhau erbyn mis Tachwedd 2024, ac yn seiliedig ar y dystiolaeth bresennol, gan gynnwys adroddiad y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg a chanfyddiadau cychwynnol ein gwerthusiad pedair blynedd. Disgwylir darparu'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Senedd ar gynnydd a chanfyddiadau'r adolygiad erbyn Haf 2025.

Yn ogystal, mae gwaith ar y gweill i ddeall yn well yr hyn sydd 'ar gael yn gyffredinol' i bob dysgwr o'r un oedran yng Nghymru. Er nad yw 'darpariaeth gyffredinol' yn derm y cyfeirir ato yn y Ddeddf na'r Cod ADY, defnyddir y term yn eang yn y sector i ddisgrifio'r arfer o ddydd i ddydd sy'n digwydd ym mhob ystafell ddosbarth i ymateb i anghenion addysgol, sicrhau cynnydd unigol a gofalu bod pob plentyn a pherson ifanc yn medru ffynnu yn eu lleoliadau.

Goblygiadau Ariannol: Cynnwys mewn cyllidebau presennol

## Argymhelliad 2

Mae'r Pwyllgor yn argymell:

Fel rhan o'i hadolygiad o'r Cod a'r Ddeddf ADY, dylai Llywodraeth Cymru adolygu sut y caiff darpariaeth ADY ei hariannu mewn ysgolion prif ffrwd. Dylai'r gwaith hwn gynnwys ystyried fformiwlâu ariannu awdurdodau lleol, cyfresi o egwyddorion, a threfniadau ariannu eraill i:

- sicrhau bod awdurdodau lleol yn trosglwyddo lefelau priodol o gyllid i ysgolion i gefnogi disgyblion sydd ag ADY;

- sicrhau bod y cydbwysedd rhwng darpariaeth a ariennir gan ysgolion a chan awdurdodau lleol fel y'i bwriadwyd yn y Cod a'r Ddeddf ADY;
- ymchwilio i weld a yw awdurdodau lleol wedi newid y ffordd y maent yn ariannu ADY o gymharu â sut y maent yn ariannu AAA o dan yr hen system, ac a yw hyn yn briodol;
- hyrwyddo tryloywder ynghylch sut y caiff ADY eu hariannu er budd ysgolion a theuluoedd; ac, yn bwysicaf oll
- sicrhau nad yw diffyg cyllid neu adnoddau yn rheswm dros wrthod CDU i blant.

Ymateb: Derbyn yn rhannol

Mae Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg yn parhau i flaenoriaethu buddsoddiad mewn ADY yng Nghymru a chyfrifoldeb statudol awdurdodau lleol yw trosglwyddo lefelau priodol o gyllid i ysgolion i gefnogi disgyblion ag ADY.

Mae Llywodraeth Cymru yn darparu cyllid i awdurdodau lleol i'w helpu i gyllido darpariaeth cyn 16 oed mewn ysgolion yng Nghymru drwy'r setliad llywodraeth leol yn bennaf. Nid yw'r setliad wedi'i glustnodi. Mae'r cyllid a roddir i bob awdurdod ar gael i'w wario fel y gwêl yr awdurdod lleol yn briodol a hynny ar yr amrywiaeth o wasanaethau y mae'n gyfrifol amdanynt, gan gynnwys ysgolion.

Fel rhan o'r ddyletswydd ar awdurdodau lleol i sicrhau bod darpariaeth addysg addas i blant, rhaid iddynt sicrhau bod eu trefniadau ar gyfer dysgwyr ag ADY yn ddigonol i ddiwallu anghenion plant a phobl ifanc yn eu hardal. Mae hyn yn unol â pholisi Llywodraeth Cymru mai awdurdodau lleol sydd yn y sefyllfa orau i nodi anghenion ac amgylchiadau lleol ac i ariannu ysgolion yn unol â hynny. Cyhoeddir ystadegau blynyddol ar wariant a gyllidebwyd ar gyfer darpariaeth Anghenion Addysgol Arbennig (AAA) ac Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) yma.

Ar hyn o bryd rydym yn cynnal adolygiad o fformiwlâu cyllido ysgolion prif ffrwd awdurdodau lleol ledled Cymru. Bydd yr adolygiad yn nodi cyfanswm y cyllid y mae pob awdurdod lleol yn ei neilltuo i ysgolion i ddiwallu anghenion disgyblion ag ADY a'r gwahanol ddulliau dosbarthu a ddefnyddir.

Bydd yr adolygiad yn ein galluogi i ystyried sut y gellid gwella'r system i greu system ariannu decach, er mwyn gallu sicrhau cyllido mwy tryloyw, cymaradwy a chyson ar draws ysgolion Cymru.

Disgwylir i gam 1 yr adolygiad cyllido gael ei gwblhau ym mis Medi 2024. Mae disgwyl i adroddiad ar y gwaith dadansoddi a'r argymhellion ar gyfer gwella gael ei gyhoeddi yn nhymor yr hydref. Yn dilyn hyn, bydd cam 2 yr adolygiad cyllido yn cynnwys ymgynghoriad ac ailddrafftio'r rheoliadau cyllido ysgolion, ochr yn ochr â rhaglen waith sydd â'r nod o gefnogi a gwella'r system cyllido ysgolion, gan gynnwys ariannu darpariaeth ADY mewn ysgolion prif ffrwd. Mae'r gwaith hwn yn amodol ar broses ddeddfwriaethol a'r amserlen.

Goblygiadau Ariannol: Dim

## Argymhelliad 3

Mae'r Pwyllgor yn argymell:

Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod pob bwrdd iechyd yn penodi ei Swyddog Arweiniol Clinigol Dynodedig Addysg pwrpasol ei hun cyn gynted ag y bo'n ymarferol gwneud hynny.

Ymateb: Derbyn

Mae'r argymhelliad yn cael ei dderbyn gan fod gan bob Bwrdd Iechyd eisoes Swyddog Arweiniol Clinigol Dynodedig Addysg.

Mae'r Ddeddf ADY yn gosod dyletswydd ar bob Bwrdd Iechyd i ddynodi swyddog i fod yn gyfrifol am gydlynu swyddogaethau'r Bwrdd Iechyd mewn perthynas â phlant a phobl ifanc ag ADY.

Rôl y Swyddog Arweiniol Clinigol Dynodedig Addysg yw gweithredu'n strategol i gydlynu swyddogaethau'r Bwrdd Iechyd mewn perthynas â phlant a phobl ifanc ag ADY. Mae'r rôl wedi cael derbyniad cadarnhaol gan y sectorau addysg ac iechyd ac maent yn helpu i safoni a sicrhau gwelliannau ar lefel genedlaethol.

Mae'r Swyddogion wedi arwain at welliannau mewn cyfathrebu, cydweithredu a chydweithio rhwng awdurdodau a'r Byrddau Iechyd, ac mae enghreifftiau o hyn i'w gweld yng nghanfyddiadau'r Pwyllgor. Yn benodol, gweithio'n rhanbarthol ar draws awdurdodau lleol a Byrddau Iechyd i leihau amrywiaeth a rhannu arfer effeithiol a gwersi a ddysgwyd, yn ogystal â sefydlu hyrwyddwyr ADY ym mhob gwasanaeth i greu strwythur cynaliadwy ar gyfer rheoli ac ymateb i geisiadau addysg.

Mae'r pryderon a godwyd gan y pwyllgor yn hysbys i'r sectorau addysg ac iechyd. Mae'r materion gweithredol hyn yn cynnwys amseroedd aros hirach na'r disgwyl a diffyg capasiti Gweithwyr Proffesiynol Perthynol i Iechyd i gefnogi asesiadau a mynychu cyfarfodydd adolygu, yn ogystal ag aneffeithlonrwydd a thagfeydd o fewn y broses ADY amlasiantaeth.

Mae'r Grŵp Amlasiantaeth ADY yn gweithio gyda'i gilydd i ddatrys yr heriau gweithredol trwy gytuno ar ddisgwyliadau cyffredin a dangosyddion perfformiad allweddol cenedlaethol i fonitro perfformiad a chydymffurfiad ag amserlenni statudol. Bydd Llywodraeth Cymru yn ystyried hawliau ysgolion o dan y Ddeddf i wneud ceisiadau adran 65 ac adran 20 fel rhan o'r adolygiad deddfwriaethol, ac yn ymateb i dystiolaeth a data o'n gwerthusiad pedair blynedd.

Goblygiadau Ariannol: Dim

## Argymhelliad 4

Mae'r Pwyllgor yn argymell:

Fel rhan o'i hadolygiad o'r Cod a'r Ddeddf ADY, dylai Llywodraeth Cymru archwilio effaith y Cod a'r Ddeddf yn benodol ar gydweithredu rhwng y sectorau iechyd ac addysg. Dylai'r adolygiad hwnnw gynnwys ystyriaeth o'r canlynol: Gweithredu diwygiadau addysg:

- a yw cyrff iechyd yn ymateb yn gyson i atgyfeiriadau a cheisiadau am wybodaeth gan awdurdodau lleol mewn modd amserol (ac os nad ydynt, pam);
- a yw'r amserlenni ar gyfer ymatebion byrddau iechyd i awdurdodau lleol y darperir ar eu cyfer yn y Ddeddf yn briodol;
- a yw'r gofyniad am atgyfeiriadau/ceisiadau am wybodaeth gan awdurdodau lleol – yn hytrach nag ysgolion – yn briodol, ac a ellid gwneud unrhyw newidiadau i wneud y cydweithredu hwnnw'n fwy effeithlon; ac
- a oes unrhyw dagfeydd eraill yn y Cod a'r Ddeddf ADY sy'n rhwystro cydweithredu rhwng iechyd ac addysg.

Ymateb: Derbyn

Mae Gweithgor Cydweithio Amlasiantaethol ADY eisoes yn edrych ar effaith gweithredu'r Ddeddf a'r Cod ar gydweithredu, yn enwedig rhwng iechyd ac addysg. Mae Dangosyddion Perfformiad Allweddol yn cael eu datblygu ar gyfer Iechyd a fydd yn adrodd ar ddata perfformiad statudol.

Mae Llywodraeth Cymru eisoes wedi ymrwymo i adolygiad o'r ddeddfwriaeth ADY, a bydd cwmpas yr adolygiad yn cael ei gwblhau erbyn mis Tachwedd. Bydd yn ystyried meysydd o fewn y Ddeddf a'r Cod a allai gael effaith ar greu rhwystrau i'r prosesau gweithredol rhwng addysg ac iechyd.

Goblygiadau Ariannol: Cynnwys mewn cyllidebau presennol

## Argymhelliad 5

Mae’r Pwyllgor yn argymell:

Dylai Llywodraeth Cymru ofyn i’r grŵp gorchwyl a gorffen Cydlynwyr ADY wneud gwaith pellach i archwilio cyflog a thelerau ac amodau staff addysgu sy’n gweithio’n gyfan gwbl neu’n rhannol fel dirprwy gydlynwyr ADY/cydlynwyr ADY cynorthwyol. Dylai’r grŵp gorchwyl a gorffen ystyried yr hyfforddiant y dylai unigolion sydd mewn swyddi o’r fath ei gael, y tasgau a’r cyfrifoldebau allweddol y gallent ddisgwyl eu cael, ac ystyriaethau y dylai cyrff llywodraethu eu hystyried wrth bennu eu cyflog.

**Ymateb:** Gwrthod

Roedd grŵp gorchwyl a gorffen CADY Llywodraeth Cymru yn grŵp a ffurfiwyd ar gyfer cyfnod penodol o amser i ystyried cyflogau ac amser digyswllt Cydlynwyr Anghenion Dysgu Ychwanegol (CADY). Mae wedi cwblhau ei waith, ac wedi cyhoeddi adroddiad a'i rannu gyda Chorff Annibynnol Adolygu Cyflogau Cymru (IWPRB) i'w ystyried.

Mae sylwadau pellach ar lwyth gwaith CADY a’r timau o’u hamgylch yn cael eu casglu o amrywiol ffynonellau ychwanegol, gan gynnwys y gwerthusiad pedair blynedd o weithredu'r system ADY a fydd yn cynnwys arolwg i'r gweithlu, traethawd ymchwil doethurol, trafodaeth weinidogol a thrafodaethau parhaus gyda phartneriaid addysg.

Yn dilyn cyhoeddi pumed Adroddiad yr IWPRB, bydd Llywodraeth Cymru yn ymateb i unrhyw argymhellion ac yn ystyried unrhyw gamau pellach.

**Goblygiadau Ariannol:** Dim

## Argymhelliad 6

Mae’r Pwyllgor yn argymell:

Dylai Llywodraeth Cymru gyhoeddi canfyddiadau ac argymhellion y grŵp gorchwyl a gorffen cynorthwywyr addysgu a sefydlwyd gyntaf ym mis Chwefror 2022.

**Ymateb:** Derbyn mewn egwyddor

Mae'r grŵp gorchwyl a gorffen cynorthwywyr addysgu yn is-grŵp i'r Fforwm Partneriaeth Gymdeithasol Ysgolion, sy'n cynnwys cynrychiolwyr o undebau, cyflogwyr a Llywodraeth Cymru.

Mae'r Fforwm wedi gofyn i'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen sicrhau tystiolaeth i gyfrannu at agenda ehangach wrth gyrraedd sefyllfa lle mae cydraddoldeb i gynorthwywyr addysgu ledled Cymru.

Cyflwynodd y grŵp gorchwyl a gorffen yr Adolygiad o Ddisgrifiad Swydd Cynorthwywyr Addysgu i'r Fforwm ym mis Ionawr 2024 ac ers hynny mae wedi cael ei rannu gyda CCAC (1 Mawrth 2024) a Grŵp Rhwydwaith Datblygu Adnoddau Dynol Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (sy'n cynnwys cyfarwyddwyr adnoddau dynol pob awdurdod lleol) (18 Gorffennaf 2024).

Unwaith y bydd pob grŵp a rhanddeiliad perthnasol wedi cael y cyfle i wneud sylwadau ar yr Adolygiad, bydd angen i'r Fforwm gytuno ar adroddiad terfynol. Bryd hynny, fel cadeirydd presennol y Fforwm, byddaf yn gofyn i'r aelodau am eu cytundeb i gyhoeddi.

**Goblygiadau Ariannol:** Dim

## Argymhelliad 7

Mae'r Pwyllgor yn argymell:

Dylai Llywodraeth Cymru ofyn i'r grŵp gorchwyl a gorffen cynorthwywyr addysgu wneud gwaith pellach i archwilio cyflog a thelerau ac amodau cynorthwywyr addysgu sy'n gweithio'n gyfan gwbl neu'n rhannol gyda'r Cydlynydd ADY fel rhan o dîm ADY canolog. Dylai'r grŵp gorchwyl a gorffen ystyried yr hyfforddiant y dylai unigolion sydd mewn swyddi o'r fath ei gael, y tasgau a'r cyfrifoldebau allweddol y gallent ddisgwyl eu cael, ac ystyriaethau y dylai cyrff llywodraethu ac awdurdodau lleol eu hystyried o ran eu cyflog.

**Ymateb:** Derbyn mewn egwyddor

Fel yr amlinellwyd mewn ymateb i argymhelliad 6, mae'r grŵp gorchwyl a gorffen cynorthwywyr addysgu yn is-grŵp i'r Fforwm Partneriaeth Gymdeithasol Ysgolion. Felly, mater i'r Fforwm yw trafod a chytuno gyda'i gilydd ar sut y caiff yr argymhelliad hwn ei ddatblygu.

Awdurdodau lleol a/neu ysgolion sy'n gyfrifol am dâl a thelerau cynorthwywyr addysgu o hyd, gydag awdurdodau unigol yn defnyddio dulliau gwahanol o fewn eu fframweithiau cyflog lleol i adlewyrchu ystyriaethau lleol. Felly, mae'n bwysig bod awdurdodau lleol, fel y cyflogwyr, yn hapus i'r grŵp gorchwyl a gorffen fwrw ymlaen â'r argymhelliad hwn.

Byddaf yn gofyn i CLlLC fel ysgrifenyddiaeth i'r Fforwm gynnwys trafodaeth am yr argymhelliad hwn ar agenda'r cyfarfod nesaf er mwyn cytuno ar ffordd ymlaen.

Goblygiadau Ariannol: Dim

## Argymhelliad 8

Mae'r Pwyllgor yn argymell:

Yn ei hymateb i'r adroddiad hwn, dylai Llywodraeth Cymru nodi ei barn ar y canlynol mewn perthynas â'r cymwysterau TGAU Gwneud-i-Gymru:

> O edrych yn ôl, ai'r penderfyniad cywir oedd cyhoeddi TGAU newydd flwyddyn yn unig cyn y mae'n ofynnol i ysgolion uwchradd eu haddysgu?
> A yw Llywodraeth Cymru yn disgwyl y bydd cyfres sefydlog o gymwysterau yn annog ysgolion uwchradd yn benodol i 'addysgu i'r prawf', a thrwy hynny yn tanseilio'r hyblygrwydd a'r annibyniaeth hon a roddir iddynt o dan y Cwricwlwm i Gymru?
> I ba raddau, os o gwbl, y mae Llywodraeth Cymru yn ystyried bod cael un darparwr cymwysterau unigol yn rhwystr i hyblygrwydd ysgolion o dan y Cwricwlwm i Gymru?

Ymateb: Derbyn

### O edrych yn ôl, ai'r penderfyniad cywir oedd cyhoeddi TGAU newydd flwyddyn yn unig cyn y mae'n ofynnol i ysgolion uwchradd eu haddysgu?

Mae ein cymwysterau Gwneud-i-Gymru newydd wedi'u hadeiladu o'r gwaelod i fyny i gyd-fynd â'r Cwricwlwm i Gymru, a gyhoeddwyd yn 2020. Mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn glir wrth gyfathrebu ag ysgolion uwchradd bod y gwaith o baratoi ar gyfer y cwricwlwm a'i weithredu ynddo'i hun yn baratoad ar gyfer y gyfres newydd o gymwysterau, gan fod hynny'n adeiladu ar y dysgu a ddarperir o dan y cwricwlwm newydd ac yn asesu'r dysgu hwnnw. Yn ogystal, rydym wedi dweud yn glir na ddylai profiadau cwricwlwm dysgwyr y tu hwnt i 14 oed fod yn seiliedig ar gymwysterau yn unig. Ym mis Chwefror 2024, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ganllawiau drafft ar ddysgu 14-16 yn y Cwricwlwm i Gymru er mwyn helpu i nodi gofynion cyfreithiol a disgwyliadau polisi Llywodraeth Cymru ar gyfer cwricwlwm ysgolion i ddysgwyr 14 i 16 oed o dan y Cwricwlwm i Gymru. Bydd y canllawiau terfynol yn cael eu cyhoeddi ym mis Medi 2024, ynghyd â phecyn o adnoddau a dysgu proffesiynol i helpu ysgolion wrth gynllunio, gweithredu ac adolygu eu cwricwlwm ar gyfer blynyddoedd 10 ac 11.

Mae'r amserlen gyffredinol ar gyfer cyflwyno cymwysterau 14-16 diwygiedig wedi'u gwneud i Gymru yn taro cydbwysedd rhwng yr amser sydd ei angen i gynllunio a datblygu cymwysterau o ansawdd uchel a'r amser sydd ei angen ar y gweithlu i baratoi ar gyfer addysgu. Dechreuodd y gwaith o gynllunio'r cymwysterau hyn ar ôl i'r Cwricwlwm i Gymru gael ei gwblhau fel bod modd i'r garfan gyntaf o ddysgwyr o dan y Cwricwlwm i Gymru ymgymryd â'r don gyntaf o gymwysterau TGAU diwygiedig fel rhan o'u cwricwlwm. Gweithiodd Cymwysterau Cymru yn agos gydag ymarferwyr yn ystod cyfnod datblygu'r Cwricwlwm i Gymru ac maent wedi parhau i wneud hynny wrth ddatblygu'r gyfres newydd o gymwysterau.

Mae bellach yn arfer safonol i fanylebau cymwysterau fod ar gael flwyddyn cyn dechrau eu haddysgu am y tro cyntaf, nid yn unig ar gyfer cymwysterau TGAU, ond ar gyfer cymwysterau diwygiedig eraill yng Nghymru ac ar draws y DU. Nid oedd manylebau cymwysterau newydd yn arfer cael eu cyhoeddi mor bell ymlaen llaw, ac mae hon yn wers a ddysgwyd o ddiwygiadau blaenorol. Yn unol â'r arfer hwn, bydd manylebau llawn ar gyfer y TGAU diwygiedig hynny a fydd yn cael eu haddysgu o fis Medi 2025 yn cael eu cyhoeddi ym mis Medi eleni.

Gan ddysgu o brofiadau'r gorffennol, mae cyflwyno'r cymwysterau newydd hyn yn cael ei gefnogi gan fwy o wybodaeth, yn amlach, ac yn gynt nag o'r blaen. Felly, nid cyhoeddi'r manylebau terfynol yw'r cyfle cyntaf i athrawon gael golwg ar yr hyn sydd i ddod. Er enghraifft, ymgynghorodd Cymwysterau Cymru ar gynigion cynllunio ar gyfer y cymwysterau TGAU yn hydref 2022 a chyhoeddodd y Meini Prawf Cymeradwyo ym mis Mehefin 2023. Yn dilyn hynny, ymgynghorodd CBAC ar ddogfennau amlinellol y cymwysterau yn nhymor yr hydref yn 2023, gan gyhoeddi manylebau TGAU drafft ym mis Gorffennaf 2024.

Mae CBAC hefyd wedi cyhoeddi amserlen o ddigwyddiadau dysgu proffesiynol i gyflwyno'r cymwysterau newydd i ysgolion ac eraill. Ar gyfer y don gyntaf o TGAU, mae'r rhain yn cynnwys esboniad o'r manylebau ym mis Medi/Hydref, sesiynau briffio byw ar-lein am y cymwysterau gyda sesiynau holi ac ateb ym mis Tachwedd/Rhagfyr a chyfres digynsail o ddigwyddiadau wyneb yn wyneb ledled Cymru yng ngwanwyn 2025.

### A yw Llywodraeth Cymru yn disgwyl y bydd cyfres sefydlog o gymwysterau yn annog ysgolion uwchradd yn benodol i 'addysgu i'r prawf'? A thrwy hynny yn tanseilio'r hyblygrwydd a'r annibyniaeth hon a roddir iddynt o dan y Cwricwlwm i Gymru?

Mae Deddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021 a'r Canllawiau Fframwaith cysylltiedig yn amlinellu'n glir bod hawl gan ysgolion a lleoliadau i gynllunio'r dysgu yn y ffordd orau i ddiwallu anghenion dysgwyr yn eu cyd-destun, o fewn rhwymedigaethau gorfodol a statudol Fframwaith y Cwricwlwm i Gymru.

Mae ymchwil addysgol yn dangos yn glir bod 'addysgu i'r prawf' yn arwain at gyfyngu'r cwricwlwm i ddysgwr, gan ddylanwadu'n negyddol ar ymarfer yn yr ystafell ddosbarth yn aml trwy ganolbwyntio ar yr asesiad yn unig. Mae'r ystod o ddiwygiadau ers 2015 wedi'u cynllunio i ymateb i'r risg a lliniaru'r broblem hon, a amlinellir yn Dyfodol Llwyddiannus fel nodwedd o'r Cwricwlwm Cenedlaethol blaenorol.

Rydym wedi ail bwysleisio yr angen i ystyried ystod eang o wybodaeth am ba mor dda y mae ysgol yn gwasanaethu ei dysgwyr - mae'n amlwg bod canolbwyntio ar ganlyniadau asesu yn unig yn creu cymhellion di-fudd ac nid yw hynny'n rhoi adlewyrchiad cywir o berfformiad cyffredinol ysgol. Mae ein dull newydd o werthuso, gwella a sicrhau atebolrwydd ysgolion yn gwneud hyn yn glir, wedi'i ategu gan ganllawiau a deunyddiau ategol i helpu ysgolion i hunanwerthuso a gwella, a gweithio gyda'n partneriaid i nodi materion sy'n dod i'r amlwg, cysoni blaenoriaethau a chefnogi ein hysgolion i wella. Bwriad ymrwymiad Llywodraeth Cymru i ecosystem wybodaeth ehangach – gan sicrhau, ar bob lefel o'r system, ein bod yn defnyddio ystod o wybodaeth i gael dealltwriaeth gyfannol o'r system addysg a chynnydd a deilliannau ein dysgwyr – yw rhoi mwy o eglurder ar berfformiad y system, gan liniaru'r risg i ymarfer yn yr ystafell ddosbarth a chynnal yr egwyddor o sybsidiaredd o fewn y Cwricwlwm i Gymru.

Mae'r holl gymwysterau wedi'u cynllunio i gefnogi'r Cwricwlwm i Gymru ac i alluogi ysgolion i'w cyflwyno mewn ffordd sy'n gweddu i anghenion dysgwyr yn eu cyd-destun ac fel rhan o'u cynnig cwricwlwm, nid y cyfan, ar ôl iddynt gyrraedd 14 oed. Dylai cwricwlwm ysgol gefnogi cynnydd dysgwyr tuag at y pedwar diben, gan liniaru'r risg o ganolbwyntio'n llwyr ar ganlyniadau cymwysterau. Er bod y cymwysterau wedi'u datblygu i adlewyrchu'r agweddau hyn ar y Cwricwlwm i Gymru, bwriedir i gynllun y cwricwlwm mewn ysgolion uwchradd fod yn ehangach o ran cwmpas na chymwysterau yn unig, gan sicrhau bod yr hyblygrwydd a'r rhyddid a roddir i ysgolion a lleoliadau o fewn fframwaith cenedlaethol y Cwricwlwm i Gymru yn cael eu cadw.

Mae canllawiau asesu o fewn Fframwaith y Cwricwlwm i Gymru yn glir ar bwrpas asesu o fewn y Cwricwlwm i Gymru. Mae gan asesu rôl sylfaenol i'w chwarae wrth sicrhau bod pob dysgwr unigol yn cael ei gefnogi a'i herio'n briodol. Dylai gyfrannu at ddatblygu darlun cyfannol o'r dysgwr – ei gryfderau, y ffyrdd y mae'n dysgu a'i feysydd i'w datblygu – er mwyn llywio'r camau dysgu ac addysgu nesaf. Dylid cyflawni hyn drwy gynnwys trefniadau asesu fel rhan o'r arferion o ddydd i ddydd mewn ffordd sy'n ennyn diddordeb y dysgwr ac sy'n golygu nad yw'n ddim gwahanol i ddysgu. Mae hyn yn caniatáu i'r ymarferydd ymateb i anghenion unigol yr ystod lawn o ddysgwyr yn ei ddosbarth, a hynny'n barhaus. Ni ellir cyflawni hyn trwy 'addysgu i'r prawf' yn unig.

Yn ogystal, nid yw'r cymwysterau'n 'sefydlog' mewn sawl ffordd. Er enghraifft, gall canolfannau ganolbwyntio ar wahanol bynciau neu feysydd o fewn y fanyleb Hanes dros amser. Yn Saesneg, efallai y byddant yn newid pa destunau y maent yn eu haddysgu a'u dulliau o addysgu, er mwyn adlewyrchu'r newid yn eu cohortau. Mewn pynciau eraill, mae cyfleoedd i gyd-destunoli dysgu, gan adeiladu ar ddealltwriaeth a phrofiadau dysgwyr, a galluogi ymarferwyr i gynllunio dysgu sy'n ymateb yn effeithiol i gryfderau ac anghenion datblygiadol eu dysgwyr.

Serch hynny, er mwyn i ddysgwyr gael eu hasesu'n deg ac yn gyson dros amser ac ar draws Cymru, mae'n bwysig bod cysondeb rhwng yr wybodaeth, y sgiliau a'r ddealltwriaeth y disgwylir ganddynt er mwyn iddynt ennill eu cymwysterau. Mae cefnogi ymarferwyr i ddeall hyn o fewn y manylebau newydd yn elfen hanfodol o'r dysgu proffesiynol a ddarperir i ysgolion o hydref 2024 ymlaen. Wrth i gymwysterau barhau i esblygu, byddwn yn archwilio'r cwmpas iddynt asesu dealltwriaeth o gysyniadau a galluoedd yn gyson gan roi mwy o ddewis dros y cynnwys a ddefnyddir i ddatblygu a dangos y rhain, fel y gwelir mewn systemau mewn mannau eraill.

Bydd rôl y Cod Cynnydd gorfodol wrth helpu dysgwyr i sicrhau effeithiolrwydd cynyddol, dyfnhau eu dealltwriaeth o ystod o ddisgyblaethau yn y Meysydd, creu cysylltiadau a throsglwyddo eu dysgu i gyd-destunau newydd, yn ehangu disgwyliadau asesu o fewn y cymwysterau newydd. Mae 'addysgu i'r prawf' yn ymwneud â mwy na hyblygrwydd cymhwyster. Mae hefyd yn ymwneud â pha mor rhagweladwy yw'r asesiadau, a pha mor bwysig yw'r asesiadau i'r dysgwyr a/neu eu hysgolion. Dylai mabwysiadu ystod ehangach o ddulliau asesu ar draws y gyfres o gymwysterau TGAU Gwneud-i-Gymru a'r Cymwysterau Cenedlaethol 14-16 eraill olygu y bydd yr asesiadau, yn gyffredinol, yn llai cul, a gweithredu fel ffordd o atal addysgu i'r prawf, gan alluogi ysgolion i ddyfeisio profiadau lleol perthnasol a chyfleoedd asesu i ddysgwyr ddangos eu dealltwriaeth a'u cryfderau. Bydd Llywodraeth Cymru a'i phartneriaid addysg yn parhau i gefnogi ysgolion i wireddu'r uchelgais hwn.

I ba raddau, os o gwbl, y mae Llywodraeth Cymru yn ystyried bod cael un darparwr cymwysterau unigol yn rhwystr i hyblygrwydd ysgolion o dan y Cwricwlwm i Gymru?

Mae canllawiau'r Cwricwlwm i Gymru yn dweud yn glir bod cwricwlwm dysgwr yn ehangach na'r cymwysterau y mae'n eu dewis. Mae gan Benaethiaid a Chyrff Llywodraethu/Pwyllgorau Rheoli gyfrifoldeb i sicrhau dysgu sy'n eang ac yn gytbwys, gan ddiwallu anghenion dysgwyr yn eu cyd-destun.

CBAC yw'r darparwr presennol ar gyfer TGAU (a Safon Uwch) cymeradwy yng Nghymru a bydd yn parhau i fod yn ddarparwr y TGAU Gwneud-i-Gymru newydd. Cyn dechrau gwaith cyd-awduro Cymwysterau Cymru i ddatblygu TGAU Gwneud-i-Gymru newydd i gefnogi'r Cwricwlwm i Gymru, fe wnaethant ysgrifennu at y pedwar corff dyfarnu a gydnabyddir yng Nghymru i gynnig cymwysterau TGAU. Dim ond CBAC a fynegodd ddiddordeb mewn ymrwymo i gynnig y gyfres lawn o gymwysterau TGAU newydd. Prif resymau'r cyrff dyfarnu eraill dros beidio dymuno cynnig y cymwysterau TGAU yng Nghymru oedd maint bach y farchnad a'r angen i gynnig cymwysterau yn ddwyieithog: egwyddor allweddol o gymwysterau diwygiedig, Gwneud-i-Gymru.

Fodd bynnag, nid ydym o'r farn bod cael un darparwr cymwysterau o reidrwydd yn rhwystr i hyblygrwydd ysgol. Gall cael un darparwr helpu i gyflwyno cymwysterau sy'n seiliedig ar ddealltwriaeth gyffredin o ethos y Cwricwlwm i Gymru. Er enghraifft, wrth ddatblygu'r holl gymwysterau TGAU newydd, mae CBAC wedi ystyried lle mae cyfleoedd i wreiddio'r themâu trawsbynciol ac i ddatblygu sgiliau annatod a thrawsgwricwlaidd y cwricwlwm. Gall gweithio gydag un darparwr hefyd helpu i fonitro ac ystyried safonau, pan fydd y TGAU yn weithredol.

Bydd ystod ehangach o gyrff dyfarnu yn rhan o'r gwaith o ddatblygu'r cymwysterau eraill sy'n ffurfio'r Cymwysterau Cenedlaethol 14-16, ochr yn ochr â'r TGAU Gwneud-i-Gymru newydd.

Goblygiadau Ariannol: Dim.